WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Offer Meddygol: Diweddariad ar Gynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**


Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 614A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru i info.officer@audit.wales.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith hwn oedd Nathan Couch.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2013, ond mae angen gwneud mwy i wella'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli offer meddygol.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 6

Argymhellion 8

Atodiadau

Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2013 10

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion newydd ar reoli offer meddygol 21

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae cyrff iechyd yn berchen ar filoedd o eitemau o offer meddygol ac yn cynnal ac yn cadw'r eitemau hynny. Gall offer meddygol gyflawni lawer o swyddogaethau megis diagnosio, atal, monitro, ymchwilio a thrin. Felly mae'n hanfodol bod cyrff iechyd yn rheoli eu hoffer meddygol mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel. Mae offer meddygol, yn ôl diffiniad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn cynnwys pob dyfais feddygol sy'n gysylltiedig â chleifion yn rhan o'u triniaeth a'u gofal yn yr ysbyty, a dyfeisiau meddygol a ddefnyddir at ddibenion diagnostig ac yn y labordy.

2 Yn rhan o raglen archwilio 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o offer meddygol Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Diben yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei offer meddygol yn effeithiol?'

3 Adroddwyd ar ein canfyddiadau ym mis Medi 2013 a daethpwyd i'r casgliad bod 'yr adran Peirianneg Glinigol yn rheoli'r broses o gynnal a chadw offer meddygol o ddydd i ddydd yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan offer meddygol broffil uchel o fewn Bwrdd Iechyd y Brifysgol ac mae angen atgyfnerthu'r trefniadau rheoli cyffredinol er mwyn sicrhau y caiff yr arian cyfyngedig sydd ar gael ei flaenoriaethu'n briodol.' I gefnogi ein casgliad, canfuom y canlynol:

- er bod yr adran Peirianneg Glinigol yn cynnal ac yn cadw'r offer yn dda, ceir diffyg ymgysylltiad ymysg y Byrddau Clinigol ac nid yw'r cyllid sydd ar gael yn cael ei wario'n iawn bob amser; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod offer meddygol yn risg gorfforaethol er y bydd angen iddo asesu gwybodaeth ariannol, digwyddiadau a chyflwr yr offer er mwyn gwneud yn siŵr y cyflawnir yr amcanion.

4 Yn 2013, gwnaeth ein hadroddiad yr argymhellion canlynol, a nodwyd yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn 2013

| Argymhellion |
|---|
| **Prosesau Sicrwydd a Rheolaethau Mewnol**<br>A1 Cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol ar gyfer rheoli offer meddygol drwy roi strwythurau pwyllgor effeithiol ar waith ar lefelau strategol a gweithredol er mwyn sicrhau bod y byrddau clinigol yn ymdrin â materion offer meddygol ac yn mynd i'r afael â risg clinigol. |
| **Rhestr Offer Meddygol**<br>A2 Mae angen datblygu un rhestr offer meddygol, sy'n tynnu ynghyd yr holl eitemau data allweddol ac sy'n asesu risgiau clinigol offer sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, sy'n costio llai na a mwy na £5,000. |

| Argymhellion |
| --- |
| **Amnewid Offer** |
| A3 Datblygu dull strategol o flaenoriaethu anghenion amnewid offer ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, gan sicrhau bod pob maes yn cydweithio, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i gilydd. |
| **Digwyddiadau** |
| A4 Rhoi systemau a phrosesau ar waith i sicrhau yr adroddir ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag offer i Fyrddau Clinigol. |
| **Rheoli Cadeiriau Olwyn** |
| A5 Datblygu dull clir o reoli cadeiriau olwyn ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol. |
| **Gweithio'n integredig** |
| A6 Datblygu cynllun safle strategol i sicrhau bod adrannau Technoleg Gwybodaeth, Ystadau ac Offer yn cydweithio ac yn cynnal ymarferion costio oes cyfan ar gyfer amnewid offer. |
| **Gwasanaethau Patholeg** |
| A7 Sicrhau y creffir ar wasanaethau patholeg, mewn cysylltiad ag offer meddygol, gan fod y rhain y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

5 Yn rhan o Gynllun Archwilio 2017, cynhwysodd yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Offer Meddygol yn 2013. Dechreuodd y diweddariad ar gynnydd hwn ym mis Rhagfyr 2017 a gofynnodd y cwestiwn canlynol: **'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon o gynnydd mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol'?**

6 Wrth gynnal y diweddariad ar gynnydd hwn rydym ni wedi:

- adolygu dogfennaeth gan gynnwys cofnodion y Grŵp Offer Meddygol, cofnodion is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol, adroddiadau a gyflwynwyd i is-bwyllgor cyffredinol Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Iechyd, adroddiadau'r Grŵp Rheoli Cyfalaf, Cofrestrau risgiau; ac
- wedi cyfweld â sawl aelod o staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, problemau cyfredol a heriau yn y dyfodol.

7 Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

# Canfyddiadau allweddol

8 Ein casgliad cyffredinol yw bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2013, ond bod angen gwneud rhagor i wella'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli offer meddygol.

9 Mae Arddangosyn 2 yn nodi statws y cynnydd yn erbyn yr argymhellion blaenorol.

Arddangosyn 2: statws argymhellion 2013

| Cyfanswm yr argymhellion | Wedi'i weithredu | Ar y gweill | Hwyr | Wedi'i ddisodli |
|---|---|---|---|---|
| 7 | 1 | 6 | – | – |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

10 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu un argymhelliad yn llwyr ac wedi gwneud cynnydd yn erbyn y chwech arall sydd ar ôl. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau ychwanegol i gryfhau'r trefniadau presennol.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau sicrwydd a rheolaethau mewnol boddhaol ar gyfer offer meddygol, fodd bynnag, mae lle i wella

11 Mae un Grŵp Offer Meddygol erbyn hyn wedi disodli'r Grŵp Rheoli Offer Meddygol a'r Grŵp Strategaeth Offer Clinigol. Er hynny, ceir pryderon am effeithiolrwydd y Grŵp Offer Meddygol.

12 Mae cyflwyno'r swydd Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn ddatblygiad cadarnhaol, er nad yw'r swydd hon wedi cael yr effaith a fwriadwyd eto.

13 Mae strwythur llywodraethu wedi'i rhoi ar waith ac mae'n dechrau datblygu ar hyn o bryd. Mae hyn wedi helpu i gryfhau trefniadau offer meddygol. Fodd bynnag, nid yw Byrddau Clinigol wedi datblygu cofrestrau risgiau offer meddygol eto, sy'n arwain at safbwynt corfforaethol a gweithredol gwahanol o ran risg offer meddygol.

14 Mae'r sefydliad wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau Offer Meddygol, er hynny, nid yw'r graddau cydymffurfiaeth ar draws y Bwrdd Iechyd yn hysbys.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno un rhestr offer meddygol

15 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno un rhestr unigol ar gyfer offer oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cofnodi offer o dan £5,000.

## Nid oes dull diffiniedig o amnewid offer meddygol o dan £5,000

16 Mae'r Grŵp Offer Meddygol wedi cyflwyno cynnig cyfalaf, sydd wedi annog Byrddau Clinigol i raddio eu hanghenion o ran offer meddygol a gwneud cynigion am gyllid. Mae hyn wedi arwain at ragor o graffu ar y prosesau prynu ac amnewid offer meddygol dros £5,000.

17 Nid oes dull diffiniedig o amnewid offer o dan £5,000. Mae cyllidebau refeniw y Byrddau Clinigol yn ariannu'r prosesau amnewid offer meddygol. Ceir pryderon y gallai diffyg ariannu cyllidebau refeniw arwain at risg clinigol arwyddocaol pan na all y gwasanaethau brynu offer hanfodol.

## Nid yw Byrddau Clinigol yn adolygu problemau/digwyddiadau yn ymwneud ag offer clinigol

18 Mae'r Grŵp Offer Clinigol yn adolygu digwyddiadau offer clinigol yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno trefniadau i sicrhau bod y Byrddau Clinigol yn cael yr wybodaeth hon.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull clir o reoli cadeiriau olwyn safonol

19 Mae dull clir o reoli cadeiriau olwyn safonol ar waith erbyn hyn ac mae'r adran Peirianneg Glinigol wedi cyflwyno rhaglen cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae colli cadeiriau yn broblem ac nid oes rheolaethau ar waith i sicrhau atebolrwydd dros y stoc o gadeiriau olwyn.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dull o weithio integredig ar gyfer gwariant cyfalaf; fodd bynnag, mae cydweithredu ar offer meddygol ar draws y gwasanaethau gweithredol yn parhau i fod yn broblem

20 Mae'r Grŵp Rheoli Cyfalaf a'r Weithdrefn Rheoli Cyfalaf yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Dechnoleg Gwybodaeth, Ystadau a Chyfleusterau ac mae'n ystyried adroddiadau gan y Grŵp Offer Meddygol a'r Bwrdd Technoleg Gwybodaeth. Fodd bynnag, mae cydweithredu ar draws gwasanaethau yn parhau i fod yn broblem.

21 Mae tystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad wedi awgrymu bod problemau o ran cynnal a chadw gwelyau a theclynnau codi, a'u hamnewid, yn ogystal ag anawsterau wrth gysylltu ag adran Caffael ac Ystadau a'r cyflenwr teclynnau codi. Ar ben hynny, mae cyflwyno gwelyau penodol (gwelyau isel iawn Medstorm MMO 5000) yn yr adran Gofal Critigol ar ddiwedd 2017 wedi arwain at sawl adroddiad am ddigwyddiadau andwyol difrifol. Ni wnaeth neb ymgynghori ag aelodau staff yr

adran Gofal Critigol cyn cyflwyno'r gwelyau, er ei bod wedi cael problemau tebyg â gwelyau ar ddechrau 2016.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwerthuso trefniadau offer meddygol y Gwasanaethau Patholegol (Meddygaeth Labordy)

22 Nid yw'r sefydliad wedi ystyried trefniadau offer meddygol y Gwasanaethau Patholeg (Meddygaeth Labordy) ac nid yw staff y gwasanaeth hwn yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Offer Meddygol.

# Argymhellion

23 Wrth gynnal y gwaith hwn, rydym ni wedi nodi pryderon sy'n haeddu argymhellion ychwanegol. Mae Arddangosyn 3 yn darparu manylion argymhellion newydd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd barhau i weithredu'r argymhellion nad ydynt eto wedi'u cwblhau, a nodwyd yn ein hadolygiad yn 2013.

Arddangosyn 3: argymhellion

| Argymhellion newydd |
|---|
| **Grŵp Offer Meddygol**<br>A1 Adolygu effeithiolrwydd y Grŵp Offer Meddygol, gan ganolbwyntio ar:<br>• Aelodaeth y grŵp<br>• Presenoldeb<br>• Cymorth Gweithredol<br>• Llinellau adrodd |
| **Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol**<br>A2 Gwella effeithiolrwydd swyddogaeth y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol, drwy:<br>• ddarparu eglurder am ddiben y swydd;<br>• sicrhau presenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Offer Meddygol;<br>• sicrhau presenoldeb yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol;<br>• sicrhau bod y Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn ymgysylltu â'u Bwrdd Clinigol perthnasol ynglŷn â risgiau a phroblemau offer meddygol;<br>• sicrhau bod gan Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud y swydd; a<br>• sicrhau bod gan Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol fynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu posibl. |

| Argymhellion newydd | |
|---|---|
| **Rheoli Risg Offer Meddygol** | |
| A3 | Adolygu trefniadau rheoli risg offer meddygol ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod y dull corfforaethol a'r dull gweithredol yn alinio. |
| **Rhestr Offer Meddygol** | |
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd bennu sut y gall ddatblygu rhestr offer meddygol effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael. |
| **Amnewid Offer Meddygol o dan £5,000** | |
| A5 | Dylai'r Grŵp Offer Meddygol fodloni ei hun fod y byrddau clinigol yn gweithredu systemau a phrosesau effeithiol ar gyfer monitro, prynu ac amnewid offer meddygol o dan £5,000. |
| **Ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd** | |
| A6 | Sicrhau bod y Byrddau Iechyd yn cynnwys adroddiad y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn eitem barhaus ar eu hagenda ar gyfer y cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, er mwyn trafod unrhyw risgiau offer meddygol a digwyddiadau, a mynd i'r afael â nhw. |
| **Gweithio'n Integredig** | |
| A7 | Sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaethau perthnasol yn cydweithredu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i gilydd ar faterion offer meddygol. Dylid rhoi sylw i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynnal, cadw ac amnewid gwelyau a theclynnau codi yn enwedig. |
| **Gwasanaethau Patholeg** | |
| A8 | Asesu'r trefniadau yn ymwneud ag offer meddygol sydd ar waith yn y Gwasanaethau Patholeg (Meddygaeth Labordy). |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2013

Arddangosyn 4: asesu cynnydd

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Prosesau Sicrwydd a Rheolaethau Mewnol** | | | |
| A1 Cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol er mwyn rheoli offer meddygol drwy roi strwythurau pwyllgor effeithiol ar waith ar lefel strategol a gweithredol i sicrhau bod y byrddau clinigol yn ymgysylltu â materion offer meddygol ac yn mynd i'r afael â risgiau clinigol. | 11 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Yn ein hadolygiad blaenorol, canfuom nad oedd y Grŵp Rheoli Offer Meddygol yn y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda. Nid oedd gan y grŵp broffil amlwg, nid oedd ganddo linellau adrodd clir ac nid oedd yr aelodaeth ar y pryd yn ei galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud. Roedd y Grŵp Rheoli Offer Meddygol yn adrodd i'r Grŵp Strategaeth Cyfalaf Offer Meddygol, ond nid oedd y grŵp hwn wedi cyfarfod gan nad oedd ganddo unrhyw gyllid cyfalaf i'w ddyrannu. Ar ben hynny, roedd y diwygiad diweddar o Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd yn golygu nad oedd cofnodion y Grŵp Rheoli Offer Meddygol yn cael eu derbyn mwyach. Nid oedd eglurder o ran craffu ar y grŵp hwn.<br>Ers ein hadolygiad, mae Grŵp Offer Meddygol unigol wedi disodli'r Grŵp Rheoli Offer Meddygol a'r Grŵp Strategaeth Offer Clinigol. Mae Cylch Gorchwyl y grŵp (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd), dyddiedig 1 Hydref 2014, yn amlinellu ei gyfrifoldebau a'i ddiben. Ceir cynrychiolaeth eang gydag aelodau yn cael eu dethol am eu cyfraniad at strategaethau cyffredinol yn hytrach nag am arbenigedd technegol manwl. Mae'r grŵp yn cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Iechyd yn ôl yr angen. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Prosesau Sicrwydd a Rheolaethau Mewnol** | | | |
| A1 Cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol er mwyn rheoli offer meddygol drwy roi strwythurau pwyllgor effeithiol ar waith ar lefel strategol a gweithredol i sicrhau bod y byrddau clinigol yn ymgysylltu â materion offer meddygol ac yn mynd i'r afael â risgiau clinigol. | 11 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Mae staff y Bwrdd Iechyd yn ystyried bod y Grŵp Offer Meddygol newydd yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae trefniadau clir ar waith erbyn hyn i reoli offer meddygol ar lefel strategol a gweithredol. Fodd bynnag, awgrymwyd mewn cyfweliadau y ceir barn gymysg ar ei effeithiolrwydd yn gyffredinol. Mynegwyd pryderon gan staff y Bwrdd Iechyd ynglŷn â'r diffyg cynrychiolaeth gan adrannau allweddol megis Ystadau, Caffael a Thechnoleg Gwybodaeth, Byrddau Clinigol (Meddygaeth Menywod a Phlant) ac arbenigwyr clinigol yn gyffredinol. Fe wnaethom ganfod nad oedd presenoldeb yn y grŵp yn orfodol ac roedd hyn yn cyfrannu at gynrychiolaeth wael. Awgrymodd staff y Bwrdd Iechyd fod dull adweithiol yn cael ei fabwysiadu pan fo problemau yn codi.<br>Y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Therapïau a Gwyddorau Iechyd yw Arweinydd Gweithredol Offer Meddygol ac roedd ef hefyd yn cadeirio'r Grŵp Offer Meddygol. Ers sefydlu'r grŵp, dim ond i bedwar cyfarfod aeth yr Arweinydd Gweithredol, allan o'r deg a gynhaliwyd. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn cadeirio'r cyfarfodydd erbyn hyn. Rydym ni ar ddeall ei fod yn rhoi diweddariadau llafar i'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar faterion yn ymwneud ag offer meddygol ac mae'n helpu i ddrafftio adroddiadau ar ran y cyfarwyddwr gweithredol. Mae cofnodion Pwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad cyffredinol, a Pherfformiad[1] y Bwrdd Iechyd yn awgrymu bod y drafodaeth ar faterion offer meddygol yn gyfyngedig ar y lefel hon. Ni chafwyd ond tri achlysur pan gynhaliwyd trafodaethau arwyddocaol yn y ddau bwyllgor ers 2013. Ar gyfer y tair trafodaeth, rydym yn nodi mai'r Cyfarwyddwr Nyrsio, neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Therapïau a Gwyddorau Iechyd neu'r Prif Swyddog Gweithredol oedd yn arwain y trafodaethau. Ar ben hynny, nid yw'r un o'r pwyllgorau yn adolygu cofnodion y Grŵp Offer Meddygol i wneud yn siŵr ei fod yn cyflawni ei swyddogaeth. Fodd bynnag, rydym ni ar ddeall bod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r egwyddor nad oes rheswm cadw cofnodion mewn pwyllgorau ffurfiol pan fo Arweinydd Gweithredol yn bresennol. Os oes gan Arweinydd Gweithredol unrhyw bryderon, yna caiff ofyn am eitem i fynd ar agenda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. |

[1] Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd Iechyd a ddisodlwyd ym mis Mai 2017, ei ragflaenydd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Chyflawni, a'r Pwyllgor olynol, Adnoddau a Chyflawni a grëwyd ym mis Gorffennaf 2017.

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Prosesau Sicrwydd a Rheolaethau Mewnol** | | | |
| A1 Cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol er mwyn rheoli offer meddygol drwy roi strwythurau pwyllgor effeithiol ar waith ar lefel strategol a gweithredol i sicrhau bod y byrddau clinigol yn ymgysylltu â materion offer meddygol ac yn mynd i'r afael â risgiau clinigol. | 11 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Mae ein cyfweliadau â staff y Bwrdd Iechyd wedi awgrymu bod diffyg cefnogaeth weithredol ar faterion yn ymwneud ag offer meddygol. Mae'r trafodaethau offer meddygol cyfyngedig a gynhaliwyd ym Mhwyllgorau'r Bwrdd yn cefnogi'r farn hon. Fodd bynnag, rydym ni ar ddeall bod y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn deall y materion offer meddygol ar lefel weithredol ac yn codi ymwybyddiaeth ohonynt ar draws y sefydliad. Er na chawsant eu dangos, awgrymodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Therapïau a Gwyddorau Iechyd fod ymweliadau rheolaidd ag ardaloedd clinigol yn cael eu cynnal i drafod materion offer meddygol a cheisiadau i amnewid offer meddygol. Rydym ni hefyd ar ddeall bod y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn cynnal 'teithiau' diogelwch ac yn mynychu adolygiadau perfformiad y Byrddau Clinigol, sy'n trafod risgiau yn ymwneud ag offer meddygol.<br>Mae cyflwyno'r swyddogaeth Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn ystod 2016 yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae Byrddau Clinigol wedi cynnig cynrychiolwyr staff ar gyfer y rhain, sy'n cynnwys eu dyletswyddau presennol. Mae proffil y swydd yn amlinellu'r cyfrifoldebau gyda'r disgwyliad bod y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn ddolen gyswllt â'r Grŵp Offer Meddygol a'r Bwrdd Clinigol i reoli'r offer clinigol yn iawn. Mae barn staff y Bwrdd Iechyd ar effaith y swydd hon ar reoli offer meddygol yn gyffredinol yn gymysg. Ar yr ochr gadarnhaol, mae'r swyddogaeth wedi cefnogi'r Bwrdd Clinigol i rannu risgiau ar faterion offer meddygol, datblygu a chyflwyno achosion busnes da er mwyn ennill cyllid cyfalaf ar gyfer offer meddygol. Mae hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o gyllid posibl arall ac mae'n gweithredu fel rheolaeth dda ar gyfer rheoli offer meddygol. Fodd bynnag, roedd pryderon a godwyd gan Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol o Fyrddau Clinigol eraill yn canolbwyntio ar ddiffyg eglurder o ran diben y swydd. Hefyd, diffyg brwdfrydedd ymhlith Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol eraill, diffyg ymgysylltiad gan Fyrddau Clinigol yn ymwneud â risg a digwyddiadau, a'r anallu i wneud y newid sydd ei angen. Mae rhai Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn awgrymu hefyd bod yr amser a'r adnoddau yn broblem wrth geisio cyfuno cyfrifoldebau'r swyddogaeth â swydd amser llawn bresennol. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Prosesau Sicrwydd a Rheolaethau Mewnol** | | | |
| A1 Cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol er mwyn rheoli offer meddygol drwy roi strwythurau pwyllgor effeithiol ar waith ar lefel strategol a gweithredol i sicrhau bod y byrddau clinigol yn ymgysylltu â materion offer meddygol ac yn mynd i'r afael â risgiau clinigol. | 11 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Mae ein dadansoddiad o gofnodion wedi amlygu presenoldeb cyfyngedig Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol o rai o'r Byrddau Clinigol yng nghyfarfodydd y Grŵp Offer Meddygol ac yng nghyfarfodydd is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol. Rydym ni ar ddeall bod y Grŵp Offer Meddygol eisoes wedi gofyn bod y Byrddau Clinigol yn gwneud adroddiad y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn eitem barhaus ar agenda cyfarfodydd yr is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn wedi digwydd mewn un Bwrdd Clinigol yn unig, gyda thrafodaethau cyfyngedig ar offer meddygol yn gyffredinol. Rydym ni hefyd yn nodi bod un Bwrdd Clinigol heb gadarnhau ei Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol eto.<br>Awgrymwyd gan dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein cyfweliadau fod cyfleoedd dysgu posibl o fewn swyddogaeth Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn GIG Lloegr. Rydym ni ar ddeall bod y Rhwydwaith Diogelwch Dyfeisiau Meddygol Cenedlaethol yn cynnal digwyddiadau WebEx misol, a allai helpu, o bosibl, i ddatblygu y swyddogaeth ledled y sefydliad.<br>Ceir strwythur llywodraethu erbyn hyn, sy'n cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol ac yn gweithredu fel arweinydd ar gyfer prynu ac amnewid offer meddygol. Awgrymwyd mewn cyfweliadau y bu ar waith ers dwy flynedd; mae'n dechrau datblygu ac yn helpu i wella trefniadau. Ceir rhai enghreifftiau megis cyflwyno Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd a grŵp Llywodraethu Uwchsain i ymateb i risgiau offer meddygol. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
| --- | --- | --- | --- |
| **Prosesau Sicrwydd a Rheolaethau Mewnol** | | | |
| A1 Cryfhau sicrwydd a rheolaethau mewnol er mwyn rheoli offer meddygol drwy roi strwythurau pwyllgor effeithiol ar waith ar lefel strategol a gweithredol i sicrhau bod y byrddau clinigol yn ymgysylltu â materion offer meddygol ac yn mynd i’r afael â risgiau clinigol. | 11 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Ceir ymagwedd ddatgysylltiedig o ran y safbwynt corfforaethol a gweithredol ar risgiau sy’n ymwneud ag offer meddygol. Y Grŵp Offer Meddygol sy’n gyfrifol am lenwi’r gofrestr risg corfforaethol ar gyfer offer meddygol. Serch hyn, nid oes gan y grŵp gopïau o gofrestrau risg y Bwrdd Clinigol gan eu bod yn dal i fod ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd. Mae Byrddau Clinigol wedi eu hannog i ddatblygu cofrestrau risg offer meddygol eu hunain, yn seiliedig ar enghraifft a roddwyd gan yr adran Llawdriniaeth. Fodd bynnag, mae’r cam hwn heb ei gymryd hyd yma. Ystyriodd y grŵp ddatblygu un gofrestr sefydliadol ar gyfer risg offer meddygol, ond nid yw’r adnoddau ar gael i’w rheoli.<br>Mae’r Polisi a Gweithdrefn Offer Meddygol yn ganllawiau clir ar gyfer rheoli offer meddygol, a ddefnyddir wrth ofalu am gleifion a defnyddwyr gwasanaethau’r Bwrdd Iechyd. Maent yn rheoli Offer Meddygol o’r adeg pan mae’r sefydliad yn dechrau eu defnyddio hyd nes i’r offer gyrraedd diwedd ei oes. Rydym ni ar ddeall nad yw’r Grŵp Offer Meddygol wedi bodloni ei hun ei fod yn deall i ba raddau y mae’r Byrddau Clinigol yn cydymffurfio â’r polisi a gweithdrefn. Mae cyfweliadau â staff y Bwrdd Iechyd wedi awgrymu y byddai hwn yn ymarfer defnyddiol.<br>Mae’r Weithdrefn Rheoli Cyfalaf yn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a llywodraethu priodol ar waith yn ymwneud â gwariant cyfalaf. Mae’r weithdrefn yn nodi bod y Grŵp Offer Meddygol yn ymwybodol o unrhyw wariant sy’n gysylltiedig ag offer. Mae’r Grŵp Offer Meddygol yn rhoi adroddiadau i’r Grŵp Rheoli Cyfalaf gan roi gwybod iddynt am y gyllideb ar gyfer offer meddygol ac mae’n cymeradwyo unrhyw gyllid ar gyfer offer meddygol. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rhestr Offer Meddygol** | | | |
| A2 Mae angen datblygu rhestr offer sengl, a fydd yn tynnu ynghyd yr holl eitemau data allweddol ac yn asesu risg clinigol yr offer sydd ar ddiwedd eu hoes sy'n costio mwy na, a llai na £5,000. | 1 Mawrth 2014 | Ar y gweill | Nodwyd yn ein hadolygiad blaenorol nad oedd rhestr sengl ar gyfer offer meddygol yn y Bwrdd Iechyd. Canfuwyd bod cofrestr asedau ar waith; fodd bynnag, nid oedd y gofrestr hon yn cynnwys dim ond eitemau cyfalaf, h.y. rhai sy'n werth £5,000 a mwy. Nid oedd y darlun o dan £5,000 mor glir, ac roedd dryswch o ran pwy oedd yn gyfrifol ac yn berchen ar rai offer. Mae'r adran Peirianneg Glinigol yn cynnal y System Medusa, a oedd yn monitro'r gwaith cynnal a chadw ar offer ac roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr holl eitemau a gaiff eu cynnal a'u cadw yn yr adran. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth am yr holl werthoedd ariannol yn ddiffygiol ac roedd hyn yn arwain at anawsterau wrth gyfrifo costau amnewid yn gywir. Mae'r diffyg ffynhonnell wybodaeth gyflawn unigol hon yn ei gwneud yn heriol asesu'n gywir y sefyllfa o ran yr offer sydd wedi colli eu gwerth yn llwyr.<br><br>Ers yr adolygiad gwreiddiol, nid oes cofnod sengl wedi ei roi ar waith eto oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen i gofnodi offer nad yw'n offer cyfalaf (o dan £5,000). Trefnodd y Grŵp Offer Meddygol archwiliad o'r offer meddygol hyn ond nid oedd yn bosibl ei gwblhau oherwydd graddfa'r dasg ac ansawdd yr wybodaeth a gafwyd gan Fyrddau Clinigol. Rydym ni ar ddeall bod y sefydliad wedi ymrwymo i benodi Swyddog Caffael Offer Meddygol am gyfnod penodol yn ystod 2017-18. Cyfrifoldeb y swydd fydd coladu cofnod o eitemau nad ydynt yn eitemau cyfalaf ar gyfer cofnodion caffael Oracle, a bydd y cofnod yn aros ar daenlen ar wahân i'r rhestr offer cyfalaf bresennol. Nid oedd proses recriwtio ar gyfer y swydd hon wedi'i chychwyn hyd at fis Chwefror 2018.<br><br>Nid yw'r Grŵp Offer Meddygol wedi cwblhau ymarfer i nodi arfer da ar gyfer rhestrau offer meddygol mewn sefydliadau tebyg. Mae cyfweliadau â staff y Bwrdd Iechyd hefyd yn awgrymu y ceir problemau o ran lleoli a gwybodaeth am offer meddygol nad yw'n offer cyfalaf, a allai wneud y dasg o ddatblygu cofnod ar gyfer eitemau o dan £5,000 yn anodd. Bydd yn rhaid i'r Grŵp Offer Meddygol wneud yn siŵr bod y Byrddau Clinigol yn ymgysylltu'n llwyr â'r dasg hon er mwyn datblygu cofnod cywir.<br><br>Mae'r adran Peirianneg Glinigol yn parhau i ddefnyddio'r System Medusa. Awgrymodd pennaeth Peirianneg Glinigol ei bod erbyn hyn yn cynnwys manylion am werthoedd ariannol yr holl eitemau offer meddygol newydd er mwyn helpu i gyfrifo costau amnewid yn gywir yn ôl yr angen. Efallai na fyddai'r wybodaeth ar gael am eitemau hŷn. |

<table>
<thead>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Dyddiad targed ar gyfer gweithredu</th><th>Statws</th><th>Crynodeb o’r cynnydd</th></tr>
</thead>
<tbody>
<tr><td colspan="4">Amnewid Offer</td></tr>
<tr>
<td>A3 Datblygu dull strategol o flaenoriaethu anghenion amnewid offer ar gyfer y Bwrdd Iechyd Prifysgol cyfan, gan sicrhau bod yr holl feysydd yn cydweithredu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â’i gilydd.</td>
<td>2 Tachwedd 2014</td>
<td>Ar y gweill</td>
<td>
Nodwyd yn ein hadolygiad blaenorol nad oedd dull strategol o amnewid eitemau o dan £5,000. Mae gan y Bwrdd Iechyd lawer o eitemau o dan y trothwy cyfalaf, megis cloriannau, ac roedd angen eglurder o ran cyfrifoldebau am yr eitemau hyn, a rheoli risg mewn cysylltiad â nhw.
Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae’r Broses Rheoli Risg Oes Bywyd Offer Meddygol erbyn hyn yn sicrhau dull strategol o gaffael neu amnewid offer meddygol, wedi’i alinio â strategaeth gyffredinol y sefydliad. Mae’n dangos bod y Grŵp Offer Meddygol a’r Swyddogion Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn allweddol yn y broses benderfynu. Ceir hefyd ymgysylltiad ag adrannau perthnasol megis Peirianneg Glinigol, Profion Pwynt Gofal, a’r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.
Mae’r Grŵp Offer Meddygol wedi cyflwyno cynigion cyfalaf sydd wedi annog Byrddau Clinigol i raddio eu hanghenion offer meddygol a chyflwyno cynigion am gyllid, a arweiniodd at ragor o graffu ar gaffael offer meddygol (dros £5,000). Mae’r dystiolaeth a ddarperir yn awgrymu bod y gyfradd ymateb yn foddhaol a bod staff y Bwrdd Iechyd yn ystyried y dull yn deg o ran neilltuo cyllid cyfalaf a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru. Er ein bod yn derbyn bod y dull hwn yn gweithio’n effeithiol, mae Pennaeth yr adran Peirianneg Glinigol wedi amcangyfrif y dylai’r Bwrdd Iechyd amnewid rhwng 30 a 40% o’i offer meddygol ar unwaith oherwydd eu hoed (yn hŷn na saith mlwydd oed). Rydym ni ar ddeall bod hyn yn ganllaw yn hytrach nag yn darged penodol ac mae Peirianneg Glinigol yn ystyried cyfnodau gwarant y gwneuthurwr ac amserlenni cynnal a chadw wrth benderfynu a yw offer meddygol yn ddiogel i’w defnyddio. Mae Arddangosyn 5 yn nodi ffigurau o’r System Medusa yn amlygu proffil oed offer meddygol (dros £5,000) yn y sefydliad.
Arddangosyn 5 – Proffil Oedran Offer Meddygol
<table>
<tr><th>Eitemau a ddefnyddir sy’n hŷn na saith mlwydd oed</th><th>Eitemau a ddefnyddir sy’n llai na saith mlwydd oed</th></tr>
<tr><td>16,755</td><td>20,858</td></tr>
<tr><td>44.6%</td><td>55.4%</td></tr>
</table>
Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.
</td>
</tr>
</tbody>
</table>

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Amnewid Offer** | | | |
| A3 Datblygu dull strategol o flaenoriaethu anghenion amnewid offer ar gyfer y Bwrdd Iechyd Prifysgol cyfan, gan sicrhau bod yr holl feysydd yn cydweithredu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â’i gilydd. | 2 Tachwedd 2014 | Ar y gweill | Nododd un Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol (MDSO) hefyd fod y rhestr o offer meddygol sydd angen eu hamnewid yn ei adran ef yn arwyddocaol. Fodd bynnag, rydym ni’n cydnabod bod y sefydliad yn wynebu heriau, gyda chronfeydd cyfalaf cyfyngedig ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer offer meddygol.<br>Nid oes dull diffiniedig o amnewid offer (o dan £5,000). Mae cyllidebau refeniw o fewn Byrddau Clinigol yn darparu’r cyllid ar gyfer amnewid offer meddygol o dan y trothwy hwn. Awgrymwyd mewn cyfweliadau y gallai diffyg mewn cyllidebau refeniw arwain at risg clinigol arwyddocaol pan na all wasanaethau megis wardiau brynu offer hanfodol. Rydym ni ar ddeall y gwnaed ymdrechion aflwyddiannus i sicrhau cyllideb benodedig ar gyfer amnewid offer meddygol o dan £5,000 ac na chynhaliwyd unrhyw ymarfer meincnodi ffurfiol er mwyn deall y dull a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd eraill. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau** | | | | |
| A4 | Rhoi systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod Byrddau Clinigol yn cael gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag offer. | 9 Ionawr 2014 | Ar y gweill | Nododd ein hadolygiad blaenorol fod y digwyddiadau sy'n ymwneud ag offer meddygol wedi'u cofnodi ond heb eu cyfathrebu'n dda, ac nad oeddent ychwaith yn llywio prosesau rheoli risg. Roedd prosesau craffu y Byrddau Clinigol ar adroddiadau digwyddiadau yn wan ac nid oedd gwybodaeth am ddigwyddiadau yn llywio'r datganiad o anghenion a gyflwynwyd ar gyfer amnewid offer.<br>Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd prin o ran cyflwyno systemau i roi gwybodaeth am risgiau/digwyddiadau sy'n ymwneud ag offer meddygol i Fyrddau Clinigol. Dangosodd ein hadolygiad o ddogfennau fod y Grŵp Offer Meddygol yn trafod digwyddiadau yn rheolaidd yn rhan o eitem sefydlog ar agendau cyfarfodydd. Awgrymodd cyfweliadau y bydd y grŵp yn cael adroddiad rheolaidd o'r system Datix gan ddechrau ym mis Ionawr 2018, a fydd yn rhoi rhagor o fanylion am y digwyddiadau sy'n ymwneud ag offer meddygol ac felly'n atgyfnerthu trefniadau. Fodd bynnag, mae prosesau craffu'r Bwrdd Clinigol ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag offer meddygol yn parhau i fod yn wan. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Cadeiriau Olwyn** | | | |
| A5 Datblygu dull clir o reoli cadeiriau olwyn safonol ar draws y bwrdd iechyd prifysgol. | 1 Rhagfyr 2013 | Cwblhawyd | Nododd ein hadolygiad blaenorol fod angen egluro prosesau rheoli sawl eitem sydd y tu hwnt i’r trefniadau offer meddygol craidd, fel cadeiriau olwyn, gwelyau cleifion a pheiriannau codi.<br>Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae’r Adran Peirianneg Glinigol wedi cyflwyno nifer o welliannau, sydd wedi helpu i reoli safon cadeiriau olwyn ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys archwiliad o’r stoc cadeiriau olwyn, datblygu rhestr offer a chyflwyno rhaglen cynnal a chadw. Mae’r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod y rhaglen yn gweithio’n effeithiol heb unrhyw enghraifft o ôl-gronni. Mae’r Adran Peirianneg Glinigol wedi hyrwyddo’r gwasanaeth ar draws t sefydliad gan ddefnyddio amryw ddogfennau hysbysu a gwybodaeth, yn ogystal â datblygu canllawiau a chofnodion cadeiriau olwyn i’w defnyddio.<br>Mae cyfweliadau yn awgrymu bod colli cadeiriau olwyn yn broblem. Gwnaethom ofyn am adroddiad gan y System Medusa yn rhoi manylion am werth cyfan y colledion sy’n gysylltiedig â chadeiriau olwyn, ond nid oedd yr Uwch Beiriannydd Clinigol yn gallu darparu’r wybodaeth hon. Nid oes unrhyw reolaeth ar waith i sicrhau atebolrwydd, megis ad-dalu’r gyllideb ar gyfer y colledion ac felly nid oes unrhyw gymhelliant i adrannau gymryd cyfrifoldeb o’r stoc o gadeiriau olwyn.<br>Ar gyfer eitemau eraill o offer a reolir y tu hwnt i’r trefniadau offer meddygol craidd, mae ein cyfweliadau a’r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr adolygiad wedi amlygu problemau yn ymwneud â pheiriannau codi a gwelyau. Mae’r rhain yn ymwneud yn benodol ag oedi ac anawsterau wrth gysylltu â’r adran Ystadau a Chaffael a darparwyr y peiriannau codi, i sicrhau gwaith atgyweirio neu amnewid offer. Hefyd, rydym ar ddeall bod cyflwyno gwelyau penodol (gwelyau isel iawn Medstrom MMO 5000) i’r adran Gofal Critigol tua diwedd 2017 wedi arwain at nifer o adroddiadau o ddigwyddiadau andwyol. Ni chysylltodd neb â staff yr adran Gofal Critigol cyn cyflwyno’r gwelyau, a oedd yn anaddas ar gyfer y gwasanaeth, er eu bod wedi cael problemau tebyg o ran gwelyau ar ddechrau 2016. Byddai’n beth doeth i’r Bwrdd Iechyd adolygu’r trefniadau sydd ar waith ar gyfer peiriannau codi a gwelyau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r problemau sy’n codi a chymryd camau priodol yn ôl y gofyn. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Gwaith Integredig** | | | |
| A6 Datblygu cynllun safle strategol sy'n sicrhau bod Technoleg Gwybodaeth, Ystadau ac Offer yn cydweithredu ac yn cynnal proses cyfrifo costau oes gyfan ar gyfer amnewid offer. | 11 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Nododd ein hadolygiad blaenorol fod diffyg ymgysylltiad o ran materion offer meddygol ar draws y Byrddau Clinigol. Nid oedd adrannau corfforaethol ac ystadau yn rhannu risgiau nac yn cyfathrebu'n effeithiol a chyfyngedig oedd y rhan a chwaraewyd gan Fyrddau Clinigol wrth gyflawni Safon 16 Gofal Iechyd – Dyfeisiau Meddygol. Arweiniodd y diffyg cyfathrebu ar draws y Bwrdd Iechyd at broblemau, a effeithiodd ar gostau amnewid offer, fel sganwyr MRI y Bwrdd Iechyd, a oedd wedi'u 'dal' yn dilyn datblygiadau safle newydd ac felly yr oedd problem sylweddol wrth amnewid y peiriannau hyn.<br>Ers yr adolygiad gwreiddiol, rydym ni wedi gweld bod swyddogion gweithredol yn darparu goruchwyliaeth ar gyfer Offer Meddygol a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae'r sefydliad wedi ceisio gwella'r cyfathrebu rhwng Byrddau Clinigol trwy gyflwyno trefniadau llywodraethu cyfalaf integredig gan sicrhau cydweithredu rhwng Technoleg Gwybodaeth, Ystadau ac Offer Meddygol.<br>Fodd bynnag, mae tystiolaeth a roddwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod materion cydweithredu yn parhau rhwng Byrddau Clinigol, sydd wedi arwain at broblemau. Fel y nodwyd eisoes, mae oedi ac anawsterau wrth gysylltu ag Ystadau a Chaffael er mwyn atgyweirio ac amnewid peiriannau codi. Hefyd, roedd diffyg cyfathrebu â'r adran Gofal Critigol ynglŷn â chyflwyno gwelyau a oedd yn anaddas i'r gwasanaeth. |
| **Gwasanaethau Patholeg** | | | |
| A7 Sicrhau y creffir ar wasanaethau patholeg, mewn cysylltiad ag offer meddygol, gan fod y rhain y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn. | 2 Tachwedd 2013 | Ar y gweill | Ni wnaethom gynnal adolygiad o'r trefniadau offer meddygol yn y Gwasanaethau Patholeg yn yr archwiliad gwreiddiol ac argymhellwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd eu harchwilio.<br>Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae'r Grŵp Offer Meddygol wedi gofyn i Feddyginiaeth Labordy (enw Cyfarwyddiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am Batholeg) ddod i'w gyfarfodydd. Mae cynrychiolwyr wedi cynnwys Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Pennaeth y Labordy Geneteg, Pennaeth yr Adran Profion Pwynt Gofal ac aelod o Fwrdd Clinigol Diagnosteg, Clinigol a Therapiwteg, sy'n cynnwys Meddyginiaeth Labordy. Er gwaethaf rhai enghreifftiau o bresenoldeb, nododd ein hadolygiad o gofnodion y grŵp gynrychiolaeth brin o'r maes hwn yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd. |

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion newydd ar reoli offer meddygol

Arddangosyn 6: ymateb rheolwyr

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu AIB | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Offer Meddygol**<br>A1 Adolygu effeithiolrwydd y Grŵp Offer Meddygol, yn canolbwyntio ar:<br>• Aelodaeth y grŵp<br>• Presenoldeb<br>• Cymorth Gweithredol<br>• Llinellau adrodd | Adolygu a diweddaru'r cylch gorchwyl ar sail argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Nodi dulliau adrodd yn fframwaith llywodraethu y Bwrdd Iechyd Prifysgol a'r llinellau adrodd. | 1 Medi 2018 | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu AIB | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol**<br>A2 Gwella effeithiolrwydd y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol (MDSO), trwy:<br>• egluro diben y swyddogaeth;<br>• sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd y Grŵp Offer Meddygol;<br>• sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol;<br>• sicrhau bod swyddogion diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) yn ymgysylltu â'u Bwrdd Clinigol perthnasol ar risgiau a materion sy'n ymwneud ag offer meddygol;<br>• sicrhau bod gan swyddogion diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) yr amser a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth; a<br>• rhoi mynediad i swyddogion diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) at gyfleoedd dysgu a datblygu posibl. | Cynnwys y swyddog diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) yn llawn mewn strwythurau Ansawdd Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol.<br><br>Adolygu proffil swyddogaeth y swyddog diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) ac adnoddu a chyfathrebu gofynion y swyddogaeth â Byrddau Clinigol.<br><br>Datblygu bwrdd dangos y swyddog diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) gan gynnwys:<br>• Presenoldeb mewn cyfarfodydd y Grŵp Offer Meddygol ac Ansawdd Diogelwch a Phrofiad<br>• Adroddiadau Ansawdd Diogelwch a Phrofiad Offer Meddygol, adroddiad Datix y Bwrdd Clinigol,<br>• Risgiau offer meddygol y Bwrdd Clinigol<br><br>Ystyried yr hyn a ddysgwyd o archwiliad cydymffurfio'r Bwrdd Clinigol gan wasanaethau arbenigol cynhwysfawr o'i gymharu â Pholisi Rheoli Offer Meddygol y Bwrdd Iechyd Prifysgol i bob Bwrdd Clinigol ac archwiliad yn rhan o'r broses hunanasesu flynyddol. | 31 Mawrth 2019<br><br>30 Medi 2018<br><br>1 Tachwedd 2018<br><br>31 Mawrth 2019 | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu AIB | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Risg o ran Offer Meddygol**<br>A3 Adolygu prosesau rheoli risg o ran offer meddygol ar draws y sefydliad, gan sicrhau cysondeb rhwng y dull corfforaethol a gweithredu. | Sicrhau bod byrddau clinigol yn cofnodi'r risgiau o ran offer meddygol yn rhan o'u prosesau rheoli risg. Bydd y rhain yn cael eu monitro trwy'r Grŵp Offer Meddygol a'u huwchgyfeirio trwy'r pwyllgorau strategol perthnasol, e.e. Strategaeth ac Adnoddau/Rheoli Cyfalaf/ Ansawdd Diogelwch a Phrofiad/Rheolwyr Gweithredol yn ôl y galw. | 1 Ebrill 2019 | Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| **Rhestr Offer Meddygol**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd bennu sut y gall ddatblygu rhestr effeithiol o offer meddygol a'r adnoddau sydd ar gael. | Bydd y Grŵp Offer Meddygol yn adolygu canllawiau arfer da Sefydliad Iechyd y Byd a phennu yr hyn sy'n ddichonadwy i'w gyflwyno, a'r adnoddau sydd ar gael, i wella'r rhestr offer meddygol. | 1 Ebrill 2019 | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| **Amnewid Offer Meddygol o dan £5,000**<br>A5 Dylai'r Grŵp Offer Meddygol sicrhau ei hun bod byrddau clinigol yn gweithredu systemau a phrosesau effeithiol ar gyfer monitro, prynu ac amnewid offer meddygol o dan £5,000. | Sicrhau bod swyddogion diogelwch a dargyfeirio meddyginiaeth (MSDO) dyfeisiau meddygol yn cynnwys eitemau allweddol o dan £5,000 ar eu cofnod risg ac uwchgyfeirio anghenion amnewid o fewn y Bwrdd Clinigol.<br><br>Sicrhau bod y swyddog caffael dyfeisiau meddygol yn craffu ar eitemau o dan £5,000 i nodi cyfleoedd ar gyfer safoni ac arbedion. | 31 Ionawr 2019<br><br>31 Ionawr 2019 | Swyddogion Diogelwch a Dargyfeirio Meddyginiaeth (MSDO)<br><br>Swyddog caffael dyfeisiau meddygol |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu AIB | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltiad y Bwrdd Clinigol**<br>A6 Sicrhau bod Byrddau Clinigol yn cynnwys adroddiad y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i drafod ac ymdrin ag unrhyw risgiau a digwyddiadau sy'n ymwneud ag offer meddygol. | Datblygu metrigau'r swyddogion diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) ar gyfer adrodd i'w cyfarfodydd ansawdd diogelwch a phrofiad y byrddau clinigol, ac adrodd i'r Grŵp Offer Meddygol. | 1 Tachwedd 2018 | Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu AIB | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwaith Integredig**<br>A7 Sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaeth perthnasol yn cydweithredu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu ar faterion offer meddygol. Dylai roi sylw arbennig i drefniadau sydd ar waith ar gyfer cynnal a chadw ac amnewid gwelyau a pheiriannau codi. | Monitro presenoldeb ac ymgysylltiad swyddogion diogelwch dyfeisiau meddygol (MSDO) y byrddau clinigol ac aelodau eraill yn y Grŵp Offer Meddygol, uwchgyfeirio diffyg presenoldeb neu ymgysylltiad.<br><br>Monitro cynnydd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan y Cynghorwr Iechyd a Diogelwch yn dilyn cofnod 18/005 arolwg Arjo Proact 2017 y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (25 Ionawr 2018).<br><br>Cynnal a chadw peiriannau codi yn yr Adran Peirianneg Glinigol ar ddiwedd contract cyflenwr allanol.<br><br>Sicrhau cynrychiolaeth o'r Adran Peirianneg Glinigol ar y Grŵp Rheoli Gwelyau. | 30 Medi 2018<br><br>30 Medi 2018<br><br>1 Rhagfyr 2018 | Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd<br><br>Cynghorwr Iechyd a Diogelwch<br><br>Pennaeth Peirianneg Glinigol<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| **Gwasanaeth Patholeg**<br>A8 Gwerthuso'r trefniadau offer meddygol sydd ar waith yn y Gwasanaeth Patholeg (Meddygaeth Labordy). | Cytuno ar swyddogaeth y swyddog diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) Patholeg â'r adran clinigol, diagnosteg a therapiwteg â'r un swyddogaethau byrddau clinigol ar lefel gyfarwyddiaeth yn adrodd i swyddog diogelwch dyfeisiau meddygol (MDSO) y bwrdd clinigol. | 1 Tachwedd 2018 | Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru